"Mae partneriaethau cadarnhaol â'r cartref yn cael eu meithrin ac mae gwerthfawrogiad o rieni/gofalwyr fel addysgwyr cyntaf plant yn cael ei gydnabod."-(Llywodraeth Cymru, 2015)

Dechrau wrth fy nhraed

"Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ysgolion, consortia rhanbarthol ac Estyn i ddatblygu amrywiaeth o gyfryngau i helpu rhieni/gofalwyr, cymunedau a chyflogwyr i ddeall y pedwar diben a'r newidiadau ehangach yn y cwricwlwm."-(Llywodraeth Cymru, 2015)

Pobl sydd wedi cael eu geni yng Nghymru	3,644	84.7%
Wedi cael eu genu tu allan i'r Deirnas Unedig	153	3.6%
O fewn grwpiau ethnig sydd ddim yn gwyn	110	2.6%
Gallu siarad Cymraeg	529	12.8%

Ffigwr 1: 2011 Census, ONS. Information, Research & GIS - Cyngor Abertawe, Ionawr 2019



Ffigwr 2- Llun yn berthyn i fy ysgol leoliad o waith. Arddangosfa 'diwrnod dathlu gwaith' blwyddyn 1 a 2 eleni.

Mae 'Ffrindiau yn griw gweithgar o bobl sydd yn angerddol am addysg eu plant ac am sicrhau eu bod nhw'n derbyn y cyfleoedd gorau posib yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Er mwyn cynorthwyo'r ysgol yn y nod hwnnw, mae'r 'Ffrindiau' yn trefnu ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau yn gyson er mwyn codi arian i fuddsoddi mewn adnoddau sydd yn cael effaith uniongyrchol ar lawr y dosbarth. Mae'r 'Ffrindiau' yn cwrdd yn fisol, a braf byddai croesawu aelodau newydd felly dewch yn llu i'n cefnogi ni!

Ffigwr 3- https://www.yggpontybrenin.com/ffrindiau-ygg-pontybrenin-friends-of-ygg-pontybr-1/

Cyd-destun fy ysgol leoliad a'u cymuned

Rhanna'r disgyblion rhwng 17 dosbarth gan gynnwys 5 dosbarth oed cymysg. Prif iaith yr ysgol yw Cymraeg er bod dim ond 12% yn dod o gartref lle Cymraeg yw'r brif iaith. Adnabuwyd bod 13% o'u ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, dyma nifer llai na'r canran cenedlaethol sef 25% (Estyn, 2017) .

Cymdeithasol-economaidd

Prif gyflogwyr yn yr ardal yw Toyoda, Asda, Canolfan Busnes, Parc Adwerthu Cyffyrdd 47, 'Gorseinon Development Trust', Cyngor Abertawe (Cyngor Abertawe, 2019). Y rhan fwyaf o bobl sy'n dod o'r ardal yn gweithio mewn swyddi rheolwaith a gwaith llaw (41.4%) ac mae canran isel o bobl sydd byth wedi gweithio (5.1%), yn ogystal â hyn y canran sy'n ddi-waith (2015/2016) yw 4.6% sef yn is na chyfartaledd Abertawe. Mae'r canlyniadau yma'n cyfateb i'r canran o blant sy'n hawlio prydau am ddim (10.2%), sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%) (Estyn, 2017). Awgryma hyn bod y rhan fwyaf o rieni/gofalwyr yn gweithio ac nad oes llawer sy'n ar fudd-daliadau/yn ddi-waith.

Ethnigrwydd a Chrefydd

Yn amlwg o'r tabl i'r chwith mae canran bach o boblogaeth yr ardal yn dod o grwpiau ethnig sydd ddim yn gŵyn (2.6%) neu sydd wedi cael eu geni tu allan i'r DU (3.6%). Mae hyn yn cyfateb i ganlyniadau'r ysgol, ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg (Estyn, 2017), yn nôl yr ysgol canran o blant eleni sydd ddim yn adnabod eu hun fel Cymro/Cymraes yw tua 0.4%. Yn nôl ystadegau'r ysgol am eleni mae tua 33% o ddisgyblion fy ysgol leoliad yn Gristnogion a thua 0.33% yn Iddewig, felly yn amlwg mae'r rhan fwyaf ddim yn perthyn i grefydd.

Diwylliant

Mae pwyslais enfawr ar ddathlu Cymreictod a thraddodiadau Cymreig. Ond hefyd mae pwyslais ar ddysgu am amrywiaeth o ddiwylliannau i gyfoethogi dealltwriaeth y plant o'r byd fel rhan o un o feysydd dysgu'r cwricwlwm newydd; ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Ffigwr 5 a 6


ECONOMIC ACTIVITY, LABOUR MARKET AND BENEFIT STATISTICS

Economic Activity (people aged 16-74)	Gorseinon	Gorseinon %	Swansea %
Economically Active	***2,129***	***69.5***	***63.0***
Employees: Part-time and Full-time	1,720	56.2	47.9
Self-employed	202	6.6	6.6
Unemployed	142	4.6	3.9
Economically Inactive	***934***	***30.5***	***37.0***
Retired	425	13.9	15.6
Looking after Home or Family	108	3.5	3.7
Long-term Sick or Disabled	234	7.6	6.9
Other	68	2.2	2.1
Students *(economically active and inactive)*	*164*	*5.4*	*13.3*

Source: 2011 Census, ONS.


Socio-economic classification (NS-SeC)	Gorseinon	Gorseinon %	Swansea %
All usual residents aged 16-74	*3,063*	*100*	*100*
1-2. Higher managerial, administrative & professional	795	26.0	27.5
3-4. Intermediate occupations	682	22.3	20.3
5-7. Routine and manual occupations	1,268	41.4	33.9
8. Never worked and long-term unemployed	155	5.1	5.2
Not classified (full-time students)	163	5.3	13.1

Source: NS-SeC – 'National Statistics Socio-economic Classification' (three-class version). 2011 Census, ONS.





Dadansoddwyd penodau 6 a 7 sut mae agweddau teuluol a dysgu yn y cartref yn helpu tuag at ddyheadau uwch. Disgrifia'r awdur sut mae rhieni yn dysgu eu plant am eu gwerthoedd, yn modelu a datblygu iaith yn ifanc er mwyn paratoi eu plant ar gyfer y math o gyfathrebu bydd angen yn yr ysgol. Archwiliwyd sut amgylchedd cyn-ysgol yn cyfrannu at lwyddiant academaidd yn bennod 8. Dadleua'r awduron bod athrawon, rhieni a ffrindiau yn chwarae rôl fawr wrth ysbrydoli llwyddiant yn y cyfnod cyn-ysgol a'r amgylchedd dysgu gartref. Mae'r canfyddiadau'n cadarnhau bod gyfuno profiadau o profiad da cyn-ysgol a chartref cefnogol yn helpu plant i lwyddo yn erbyn anfanteision cymdeithasol-economaidd (Siraj a Mayo, 2014).



Cysylltiadau rhwng yr ysgol, dysgwyr a rhieni;

✷Diwrnod dathlu sgiliau

Yn y derbyn mae'r rhieni yn dod mewn i'r ysgol ac yn gwneud heriau sgiliau gyda'r plant dwywaith y flwyddyn. Dyma ffordd wych o gynnwys y rhieni yn dysgu'r plant, gweld sut mae'r plant yn dysgu a datblygu sgiliau newydd a chreu perthynas agos gyda'r ysgol.

✷Fforwm rhieni

Ar draws yr ysgol mae rhieni yn cael eu hethol i gynrychioli'r rhieni i gyd trwy fynychu cyfarfodydd gydag athrawon a'r pennaeth i drafod unrhyw syniadau, materion neu broblemau. Dyma ffordd effeithiol o drafod yn broffesiynol a gwaredu a phroblemau'n gyflym. Yn nôl ymchwil er mwyn i ysgol weithredu'n gwell mae'n hanfodol i athrawon a rhieni trafod am ddisgwyliadau a thargedau er lles y disgyblion (RBK School, 2016). Un fudd i fforwm rhieni yw bod y rhieni yn deall persbectif yr athrawon a'r ffordd arall. Ei bwrpas yw i wella answadd yr ysgol a phrofiad dysgu (RBK School, 2016).

✷Gwybodaeth y dosbarth ar y wefan

Mae gan bob dosbarth adran ar wefan yr ysgol lle mae gwybodaeth ar beth mae'r plant wedi gwneud yn yr ysgol, lluniau, adran helpu eich plentyn sy'n darparu cymorth addysgol, llythyron, seren/Cymro'r wythnos. Mae hyn yn gwneud i'r rhieni teimlo rhan o'r gymuned dosbarth a'u haddysg.

✷Noswaith cyflwyno

Ar ddechrau'r flwyddyn mae'r athrawon yn cynnal noson i gyflwyno trosolwg y flwyddyn i'r rhieni gan gynnwys y disgwyliadau, themâu, tripiau, trefniadau a gwybodaeth gyffredinol. Dyma ffordd arbennig unwaith eto i sicrhau bod y rhieni yn ymwybodol o'r hyn mae'u plant yn gwneud yn yr ysgol.

✷Diwrnod dathlu gwaith

Unwaith y flwydd mae'r plant yn dewis chwe darn o waith i arddangos i'w rhieni. Dyma gyfle i'r rhieni gweld yr hyn mae'r plant wedi gwneud ac yn teimlo'n falch ohono. Yn ychwanegol, mae'n ddiwrnod arbennig i wneud i'r plant teimlo'n falch dros eu gwaith a chyfle i arddangos eu cyflawniadau i bawb.

✷Anfon llyfrau darllen gartref gyda llyfr cyswllt

Wrth i rieni darllen gyda'u plant mae modd ysgrifennu sylwadau yn y llyfr cyswllt i'r athro/athrawes gweld, dyma ffordd o gadw'r cyswllt rhwng y gartref ac ysgol er lles y dysgwyr. Mae darllen gartref yn hynnod o bwysig yn nôl ymchwil oherwydd y datblygiad yn sgiliau gwrando, sillafu a llythrennedd (Merga, 2017). Hefyd wrth ddarllen gyda rhiant yn rheolaidd mae plant yn datblygu agwedd cadarnhaol tuag at ddarllen (Merga, 2017).

Cysylltiadau rhwng yr ysgol a rhieni- damcaniaethau

Mae teuluoedd yn cael effaith enfawr ar lwyddiant addysgol a chodiad y plant. Mae ymglymiad rhieni yn gysylltiedig i'w safle gartref (rhagweld dysgu'r plant), yn ogystal â chyfrannu i weithgareddau ysgol (nosweithiau rhieni, gwirfoddoli, gweithdai) (Durisic a Bunijevac, 2017). Dangoswyd ymchwil gan Amatea ac West bod ymglymiad y rhieni yn cael fwy o effaith ar lwyddiant addysgol plant na'u statws socio-economaidd, ethnigrwydd, cefndir addysgol a hil (2007, dyfynnwyd gan Durisic a Bunijevac, 2017). Un ffordd gall rhieni cyfrannu'n gadarnhaol i addysg eu plentyn yw cynorthwyo eu dysgu gartref. Yn nôl Ball a Blachman (1991) y rhieni sy'n darllen gyda'u plant, helpu gyda'u gwaith cartref a darparu cefnogaeth gan ddefnyddio adnoddau o athrawon yn dueddol i wneud yn well yn ysgol na phlant sydd ddim yn derbyn y cymorth yma. Yn ychwanegol, dangoswyd ymchwil bod cyfraniad gweithredol rhieni yn ddigwyddiadau'r ysgol yn fuddiol i'r plant a'u haddysg, fel mynychu cynadleddau, derbyn galwadau ffôn o'r ysgol, darllen ac arwyddo negeseuon o'r ysgol.

Er hyn mae'n anodd iawn i rieni ymgysylltu gyda'r ysgol achos heriau bywyd bob dydd fel incwm isel, oriau gwaith anhyblyg, anawsterau iaith, diffyg adnoddau. Gwelwyd fy ysgol leoliad yr un anhawster, nad ydy rhieni yn gwneud amser i ddarllen na gwneud ymarferion llythrennedd neu rifedd gyda'u plant oherwydd prysurdeb bob dydd ac oherwydd mae rhan fwyaf o' rhieni methu siarad Cymraeg. Rhwystr arall yw perthynas rhwng rhieni ac athrawon. Yn nôl holiadur Davies (1991) gan rieni o bedwar ysgol gwahanol hoffen nhw cael perthynas mwy personol gyda athrawon eu plant yn lle un proffesiynol (2017, dyfynnwyd gan Durisic a Bunijevac).

Cysylltiadau rhwng rhieni, dysgwr a chymuned yn nol disgwyliadau'r Cwriciwlwm i Gymru (2020)

Mae'r gwriciwlwm newydd hybu y bwysigrwydd i blant dysgu am eu gymuned lleol a phwysigrwydd i ysgolion ymgysylltu gyda'r cymuned er lles y dysgwyr. Fel rhan o un o'r pedwar diben 'dinasyddion egwyddorol a gwybodus' soniwyd dylai disgyblion bod yn "wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol." (Llywodraeth Cymru, 2020). Yn amlwg mae'r llywodraeth am i blant cael mwy o ymwybyddiaeth am eu hunaniaeth trwy edrych ar eu gwlad, eu hardal a'u cymuned lleol. Annogwyd i ddisgyblion ymgysylltu a'u cymuned lleol er mwyn rhoi nôl, helpu eraill a datblygu sgiliau newydd, "helpu dysgwyr i werthfawrogi'r cyfraniad y gallan nhw ac eraill ei wneud yn eu cymunedau ac i ddatblygu ac archwilio eu hymatebion i faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang." (Llywodraeth Cymru, 2020). Hefyd dywedwyd, "anogwn ysgolion…i ystyried sut y gallan nhw sefydlu'r ffyrdd o weithio a chyfrannu tuag at y nodau lles yn y ffordd y maen nhw'n mynd ati i gynllunio, mabwysiadu a gweithredu eu cwricwlwm a chynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr, eu cymunedau ehangach, busnesau a phartneriaid, yn y broses honno" (Llywodraeth Cymru, 2020), felly mae'n hanfodol i ffurfio cymuned o bobl i fynyegu sut i weithredu'r cwriciwlwm newydd. Mae ymglymiad i'r cymuned lleol ac ymrwymiad rhieni yn hollol bwysig felly i weithredu y gwriciwlwm newydd sy'n dechrau o 2022 ymlaen.

Mae disgwyliad i ysgolion datblygu gweledigaeth ar gyfer y cwriciwlwm ac er mwyn iddo lwyddo bydd angen ystyried y ganlynol (Llywodraeth Cymru, 2020);

- Beth y dylem ei ddysgu a pham?
- Sut y dylem ei ddysgu?
- Sut y bydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben?

Yn nol y lywodraeth dylai hyn fod yn trafodaeth parhaol ar gyfer yr ysgol, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach, megis busnesau, academia a gwasanaethau cyhoeddus. Dylai hyn gael ei addasu gan ethos yr ysgol ac ystyried y leoliad a'r amgylchedd (Llywodraeth Cymru, 2020). Dyma beth sy'n gwneud y cwriciwlwm yn hyblyg achos mae modd addasu i switio'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2020).

Yn nôl adroddiad gan lywodraethwyr fy ysgol leoliad mae'r berthynas gref rhwng yr ysgol a'r gymuned yn parhau i ffynnu. Dangoswyd y gymuned eu cefnogaeth i'r ysgol mewn amrywiaeth o ffyrdd megis darparu gwasanaethau, noddi adnoddau neu gefnogi chwaraeon a chyngherddau (Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Pontybrenin, 2016). Yn ogystal â hyn mae'r plant yn ymweld â mannau o ddiddordeb ac yn cwrdd â phobl leol yn rheolaidd. Parhawyd i fusnesau lleol gefnogi mentrau a phrosiectau'r ysgol (Llywodraethwyr YGPYB, 2016). Mae'r Heddlu, Swyddogion Diogelwch Ffyrdd, Tîm Tân, Nyrs yr ysgol ac arweinwyr Cristnogol y gymuned yn ymweld â'r ysgol yn aml i ddangos addysgu'r plant(Llywodraethwyr YGPYB, 2016). Mae Cymdeithas Rieni ac Athrawon yr ysgol yn hynod weithgar, llwyddir i ychwanegu at adnoddau'r ysgol. Dros y flynyddoedd mae'r ysgol wedi cefnogi gwahanol elusennau fel 'MacMillan', 'Llys Nini' a 'Phlant mewn Angen' (Llywodraethwyr YGPYB, 2016). Mae'r ysgol yn parhau i dderbyn myfyrwyr o Brifysgol Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Abertawe i gael profiad sy'n o fudd iddyn nhw, i'r ysgol a'r colegau (Llywodraethwyr YGPYB, 2016).

Cysylltiadau rhwng yr ysgol a chymuned- damcaniaethau

Mae ymglymiad y gymuned yn sylfaen i wella datblygiad cymdeithasol, gwybyddol, emosiynol ac ysbrydol disgyblion. Yn nol Nettle (1991)a Simon (2001) mae cyfraniad cymunedol yn ysgol yn gysylltiedig â lleihad yn ymddygiad negyddol a gwellhad presenoldeb (dyfynnwyd gan Preston 2013). Heb ots am leoliad, adeiladwaith, buddsoddiad neu statws cymdeithasol-economaidd mae pob ysgol yn defnyddio adnoddau o'r gymuned lleol (Preston, 2013). Mae addysg yn gael eu gyfoethogi pryd mae addysgwyr yn croesawi rhieni ac aelodau o'r gymuned i cyd-greu amgylchedd dysgu cefnogol sy'n ymrwymedig i datblygiad gallu, ffisegol, emosiynol, ysbrydol a chymdeithasol (Preston, 2013).

Damcaniaeth Bronfenbrenner

Mae Theori System Ecolegol Bronfenbrenner yn gyfleu'r haenau gwahanol i gymuned ac yn archwilio'r bedair elfen amgylcheddol: microsystem, mesosystem, exosystem, a'r macrosystem (Scott, 2019). Yn ôl y theori, mae plant fel rheol yn cael eu mewnosod mewn ecosystemau amrywiol, o'r gartref sef y system ecolegol fwyaf agos iddyn nhw i'r system ysgolion fwy, ac yna i'r system fwyaf eang sy'n cynnwys y gymdeithas (Scott, 2019). Mae'n anochel bod pob un o'r systemau ecolegol hyn yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn dylanwadu ar fywydau'r plant (Scott, 2019).

Cyfeirnod

Cyngor Abertawe (2019). *Gorseinon Ward Profile*. Abertawe, tud.1-6.

Durisic, M. and Bunijevac, M. (2017). *Parental Involvement as a Important Factor for Successful Education*. [pdf] pp.144-147. Ar gael ar: https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1156936.pdf [Cyrchwyd 25 Ionawr. 2020].

Estyn (2017). *Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin*. [ar-lein] Estyn.llyw.cymru. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Gymraeg%20Pontybrenin.pdf [Cyrchwyd 18 Ionawr. 2020].

Llywodraeth Cymru (2015). *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*. [ar-lein] Llyw.cymru. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cwricwlwm-i-gymru-cwricwlwm-am-oes.pdf [Cyrchwyd 25 Ionawr. 2020].

Llywodraeth Cymru (2015). *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Caerdydd, tud.3.

Llywodraeth Cymru (2020). *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. [pdf] Caerdydd, tud.19-30. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru [Cyrchwyd 1 Chwefror. 2020].

Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Pontybrenin (2016). *Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr 2015-2016*. [pdf] tud.13-14. Ar gael ar: https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-gymraeg-pontybrenin/UploadedDocument/99151d31a7f4490fa15b5bb103edb7fd/adroddiad-blynyddol-i-rieni-2015-16.pdf [Cyrchwyd 2 Chwefror. 2020].

Merga, M. (2017). *Research shows the importance of parents reading with children – even after children can read*. [ar-lein] The Conversation. Ar gael ar: http://theconversation.com/research-shows-the-importance-of-parents-reading-with-children-even-after-children-can-read-82756 [Cyrchwyd 3 Chwefror. 2020].

Preston, J. (2013). *Community Involvement in School: Social Relationships in a Bedroom Community*. [pdf] tud.418. Ar gael ar: https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1057943.pdf [Cyrchwyd 27 Ionawr. 2020].

RBK School (2016). *Importance of Parent Teacher Association*. [ar-lein] Rbkschool.org. Ar gael ar: https://rbkschool.org/blog/importance-of-parent-teacher-association.html [Cyrchwyd 3 Chwefror. 2020].

Scott, A. (2019). *The Benefits of Community Engagement in Education*. [ar-lein] Concordia University-Portland. Ar gael ar: https://education.cu-portland.edu/blog/curriculum-teaching-strategies/benefits-of-community-engagement-in-education/ [Cyrchwyd 3 Chwefror. 2020].

Siraj, I., & Mayo, A. (2014). Inspiring success in the early yearsand school environment. In *Social Class and Educational Inequality: The Impact of Parents and Schools* (tud. 127-212). Cambridge: Cambridge University Press.